



NSPCC

# Together, we'll change children's lives

**EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

Registered charity numbers:
216401 and SCO37717.

NSPCC

# Job Description Swydd Ddisgrifiad

**Job Title:** Codi Arian – Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr

**Directorate:** Ymgysylltu a Chodi Arian (Dyngarwch a Phartneriaethau)

Tîm/Adran: Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr (Codi Arian dan Arweiniad Cefnogwyr)

Lleoliad: Cymru (gartref neu hybrid)

Cyflog: £31,171- £34,634 yn dibynnu ar brofiad

Dyddiad y newid diwethaf: Tachwedd 2025

## Context and Background

Mae'r NSPCC yn dibynnu ar incwm gwirfoddol am y rhan fwyaf o'i waith i gadw plant yn ddiogel, atal cam-drin a sicrhau bod gan bob plentyn lais. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae'r elusen wedi ail-siapio sut mae'n ymgysylltu â chefnogwyr drwy'r Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Chodi Arian. O fewn hyn, daw'r Adran Dyngarwch a Phartneriaethau â chynulleidfaoedd o werth ac incwm uchel dan arweiniad cefnogwyr at ei gilydd. Mae tîm Codi Arian y Bwrdd Gwirfoddolwyr yn arwain y broses o gynhyrchu incwm drwy fyrddau gwirfoddolwyr rhanbarthol a chenedlaethol, mentrau codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr a chyflwyno digwyddiadau arbennig drwy ein pwyllgorau digwyddiadau o werth uchel. Mae'r gweithgareddau hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth wneud y mwyaf o incwm cynaliadwy, ymgysylltu ag uwch wirfoddolwyr, a chefnogi perthnasoedd hirdymor â chefnogwyr.

Mae'r byrddau gwirfoddolwyr yn cynnwys uwch randdeiliaid dylanwadol a llwyddiannus sy'n teimlo'n angerddol am y NSPCC ac yn gwirfoddoli eu hamser i helpu'r NSPCC i gynhyrchu incwm ac ymwybyddiaeth. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau codi arian i wireddu eu hamcanion – eu ffocws yw defnyddio eu rhwydweithiau a'u dylanwad i sicrhau cyfleoedd i gynhyrchu incwm drwy ddigwyddiadau, partneriaethau corfforaethol a rhoddion mawr gan unigolion.

Bydd y rôl hon yn cefnogi ac yn arwain twf a datblygiad Bwrdd Codi Arian Cymru sydd wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ers dros 25 mlynedd, i ddechrau fel Bwrdd Apêl 'Full Stop' y NSPCC yng Nghymru. Mae'r bwrdd wedi helpu i arwain a threfnu dawnsfeydd a chiniawau, heriau codi arian dramor ac amrywiaeth o ddigwyddiadau yng Nghymru a gweddill y DU. Sicrhaodd apêl y bwrdd 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair' gyllid i adeiladu canolfan bwrpasol y NSPCC yng Nghaerdydd, Tŷ Diane Engelhardt, a agorwyd yn 2010. Prif ffocws y bwrdd presennol yw cefnogi'r gwaith o godi dros £1m yn flynyddol drwy amrywiaeth o gynulleidfaoedd o gefnogwyr a hyrwyddo'r NSPCC ledled Cymru drwy drefnu digwyddiadau (codi arian ac ymgysylltu), sefydlu cysylltiadau newydd - yn bennaf unigolion o werth net uchel a phartneriaid corfforaethol - a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'r

NSPCC

NSPCC, gan gynnwys recriwtio gwirfoddolwyr a chefnogi mynediad at wasanaethau'r NSPCC.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr adran Dyngarwch a Phartneriaethau (partneriaethau corfforaethol, rhoddion mawr, ymddiriedolaethau a statudol), Ymgysylltu â'r Cyhoedd (marchnata, brand, digidol), a Gweithrediadau Codi Arian (data, cydymffurfiaeth, cyllid, caffael) i sicrhau bod codi arian ymhlith gwirfoddolwyr yn cael ei integreiddio i siwrneiau cefnogwyr, yn cynnig profiadau gwych, ac yn cyflawni enillion ar fuddsoddiad cryf.

Rôl y Swyddog Codi Arian yw meithrin a stiwardio perthnasoedd allweddol a chyflwyno prosiectau arbennig ar draws y bwrdd gwirfoddolwyr a'u rhwydweithiau i gyflawni yn erbyn cynlluniau incwm blynyddol.

## Job purpose

- Cyfrannu at ddarparu incwm cynaliadwy drwy Fwrdd Codi Arian Cymru
- Cyfrannu at gyflwyno cynlluniau incwm ac ymgysylltu blynyddol, gan sicrhau bod gweithgareddau gwirfoddolwyr o ansawdd uchel, yn cydymffurfio, ac yn canolbwyntio ar gefnogwyr
- Meithrin a rheoli perthnasoedd gydag uwch wirfoddolwyr ac aelodau'r bwrdd, gan wneud y mwyaf o gefnogaeth a gwerth hirdymor
- Cynnig cymorth a rheolaeth weithredol i bartneriaethau a phrosiectau gwirfoddol

## Key relationships – Internal

- Aelod o dîm Codi Arian y Bwrdd Gwirfoddolwyr
- Yn adrodd i'r Rheolwr Codi Arian, Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr
- Yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Dyngarwch a Phartneriaethau, gan gynnwys Partneriaethau Corfforaethol, Rhoddion Mawr, Ymddiriedolaethau a Chodi Arian Perthnasoedd Statudol a Chefnogwyr.
- Aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Cymru, yn cefnogi Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymru a chydweithwyr a thimau eraill yng Nghymru.
- Yn cydweithio ag Ymgysylltu â'r Cyhoedd (marchnata, brand, digidol) i gefnogi ymgyrchoedd codi arian ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr
- Yn gweithio gyda Gweithrediadau Codi Arian (data, cydymffurfiaeth, cyllid, caffael) i sicrhau bod prosesau'n effeithlon ac yn cydymffurfio

## Key relationships – External

- Cadeirydd y bwrdd gwirfoddolwyr, aelodau a llysgenhadon rhanbarthol gan gynnwys aelodau o Fwrdd Codi Arian Cymru ac uwch eiriolwyr
- Ymddiriedolwr y NSPCC dros Gymru
- Uwch gefnogwyr a rhwydweithiau (unigolion a sefydliadau) sy'n ymgysylltu drwy weithgareddau dan arweiniad gwirfoddolwyr

- Asiantaethau, lleoliadau a chyflenwyr sy'n cefnogi codi arian ymhlith gwirfoddolwyr
- Cyfoedion a rhwydweithiau allanol o fewn y sector codi arian ymhlith gwirfoddolwyr

## Main duties and responsibilities

Cyfrannu at Strategaeth ac Incwm Partneriaethau Gwirfoddolwyr

- Cyfrannu at gyflawni cynllun busnes blynyddol y Partneriaethau Gwirfoddol er mwyn gwneud y mwyaf o incwm net a gwerth hirdymor drwy'r byrddau gwirfoddolwyr
- Cefnogi Bwrdd Codi Arian Cymru a'u rhwydweithiau, gan sicrhau bod eu gwaith codi arian a'u hymgysylltiad yn darparu incwm cynaliadwy a gwerth hirdymor
- Arwain ar gyflawni prosiectau codi arian penodol
- Cefnogi portffolio o ddigwyddiadau codi arian a stiwardiaeth dan arweiniad Bwrdd Codi Arian Cymru i ymgysylltu â chefnogwyr newydd a chefnogwyr cyfredol yng Nghymru a thu hwnt
- Cyfrannu at ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer incwm, profiadau cefnogwyr ac enillion ar fuddsoddiad, gan fynd i'r afael â risgiau a nodi cyfleoedd ar gyfer twf
- Arwain ar gyflawni achosion busnes ar gyfer mentrau newydd dan arweiniad gwirfoddolwyr gan Fwrdd Codi Arian Cymru

Rheoli Perthnasoedd Gwirfoddolwyr

- Stiwardio uwch wirfoddolwyr ac aelodau’r bwrdd, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu hysbrydoli a’u cysylltu â chenhadaeth y NSPCC
- Darparu offer, adnoddau ac arweiniad i wirfoddolwyr i gefnogi eu gwaith codi arian a'u heiriolaeth
- Cynnal ymchwil drwy amrywiaeth o ffynonellau, i gyfrannu at gynlluniau, strategaethau rhoddwyr a deunydd cyfathrebu codi arian
- Datblygu a chreu deunyddiau apelgar ar gyfer cynulleidfaoedd allanol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau’r NSPCC, rheoliadau codi arian ac arferion gorau ym mhob gweithgaredd dan arweiniad gwirfoddolwyr

Cydweithio a Chanolfan Ragoriaeth

- Gweithredu fel canolfan arbenigedd ar gyfer codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr ar draws y NSPCC
- Cydweithio â chydweithwyr ar draws Ymgysylltu a Chodi Arian i ymgorffori codi arian ymhlith gwirfoddolwyr o fewn siwrneiau ac ymgyrchoedd ehangach i gefnogwyr

Cyllidebu, Cyllid a Gwerthuso

- Cyfrannu at y cyllidebau ar gyfer gweithgarwch codi arian ymhlith gwirfoddolwyr, gan gefnogi'r Rheolwr Codi Arian i fonitro incwm a gwariant yn gywir
- Gyda chefnogaeth y Rheolwr Codi Arian, sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i adrodd yn gywir

NSPCC

- Darparu cymorth gweinyddol ariannol i ddeiliaid cyllidebau, gan gynnwys prosesu anfonebau, gosod archebion, cynnal dadansoddiad ariannol, trin arian parod a bancio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r NSPCC.

## Cyfrifoldebau'r holl Staff o fewn y gyfarwyddiaeth Codi Incwm

- Diweddaru cronfeydd data a systemau gwybodaeth cefnogwyr yn ôl y cyfarwyddyd, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a pholisïau a gweithdrefnau'r NSPCC.
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd tîm rheolaidd, gan gyfrannu at strategaeth, trafodaethau a phenderfyniadau a fydd o fudd i'r Gyfarwyddiaeth a gweithgareddau'r NSPCC yn ehangach.
- Cadw at safonau, polisïau a gweithdrefnau'r NSPCC.
- I ddangos tystiolaeth o ddealltwriaeth ac ymrwymiad o werthoedd ac ymddygiadau'r NSPCC.
- Cynnal ymwybyddiaeth o reoliadau diogelu data a pholisïau diogelu data mewnol a chydymffurfio â nhw.
- Bod yn gyfrifol am ddysgu a datblygiad personol, cefnogi dysgu a datblygiad eraill a'r sefydliad cyfan.
- Gweithio mewn ffordd sy'n hwyluso ac yn annog cynhwysiant.
- Bod yn rhagweithiol wrth nodi ffyrdd o wella perfformiad personol a pherfformiad tîm.
- Cynnal ymwybyddiaeth o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill a chydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y NSPCC.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am gadw i fyny â gwaith y NSPCC i ddod â chreulondeb i blant i ben, gan gynnwys sicrhau diweddariadau ar ddatblygiadau prosiectau a gwasanaethau a newyddion cyffredinol y NSPCC.
- Ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- A commitment to safeguard and promote the welfare of children and young people

## Person specification

1. Profiad o feithrin perthnasoedd effeithiol drwy ryngweithio wyneb yn wyneb gydag unigolion a/neu sefydliadau lefel uchel cyfredol a newydd, gan arwain at sicrhau incwm codi arian drwy bartneriaethau hirdymor.

2. Crebwyll masnachol; y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth fasnachol i bartneriaethau codi arian gan sicrhau bod gan weithgarwch y NSPCC fantais gystadleuol yn y farchnad. Rhaid i weithgarwch codi arian y NSPCC fod yn apelgar ac yn hyfyw yn fasnachol.

3. Sgiliau eithriadol wrth reoli prosiectau; y gallu i fynd ar drywydd prosiect o'r dechrau i'r diwedd, gan gyrraedd y targed incwm a ddymunir. Rhaid cael sgiliau cynllunio manwl a'r gallu i roi sylw i'r manylion lleiaf. Rhaid bod yn hunangymhellol ac yn rhagweithiol iawn.

4. Wedi'i yrru gan dargedau gyda sgiliau rheoli ac adrodd ariannol amlwg, gan gynnwys gwaith cyllidebu a chynllunio wrth gefn cywir. Hanes o gyflawni amcanion ariannol ac adrannol.

5. Gwybodaeth am gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a chymhellion dyngarol unigol a thueddiadau cyfredol mewn codi arian gwerth uchel a chodi arian corfforaethol ledled y DU

6. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar gwych i gyflwyno cynigion codi arian, syniadau a diweddariadau am brosiectau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn ffordd glir, ysbrydoledig a hyderus.

7. Y gallu i weithio'n gytûn â chydweithwyr mewnol ar draws timau i gyflawni amcanion cyffredin. Gweithio ar y cyd; dangos dealltwriaeth o nodau a blaenoriaethau timau eraill. Gallu trafod yn llwyddiannus gydag eraill i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.

8. Y gallu i drefnu a chynllunio eich gwaith eich hun, jyglo gofynion cystadleuol, rheoli prosiectau a sefydlu amserlenni a blaenoriaethau clir er mwyn cyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

9. Wedi profi’r gallu i ddangos mentergarwch a chreadigrwydd

10. Mae profiad o becyn codi arian CRM yn ddymunol ond nid yn hanfodol; darperir hyfforddiant

Mae'r gallu i ymgysylltu â deunydd cyfathrebu drwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg hefyd yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.

## Recriwtio Mwy Diogel

Fel sefydliad, rydyn ni wedi ymrwymo i greu a meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo diogelu a lles plant ac oedolion mewn perygl.

Mae ein harferion recriwtio mwy diogel yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod proses gyson a thrylwyr o dderbyn, casglu, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth gan ymgeiswyr ac am ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod pob person a benodir yn addas i weithio gyda’n plant ac oedolion.

Bydd y broses o recriwtio a dethol ein pobl yn cael ei chynnal mewn ffordd broffesiynol, amserol ac ymatebol ac yn unol â deddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, a deddfwriaeth diogelu berthnasol a chanllawiau statudol.

Ein hegwyddorion:

- Dylech wastad geisio recriwtio'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yn seiliedig ar deilyngdod gan gynnwys eu sgiliau, eu profiad, eu cymhelliant a'u cymwyseddau. Dylai ein proses gadarn o recriwtio a dethol sicrhau bod y person sydd fwyaf addas ar gyfer y rôl a'r sefydliad yn cael ei adnabod.

- Wedi ymrwymo i amrywiaeth a chyfle cyfartal a bydd yn cyfweld â phob ymgeisydd (mewnol ac allanol) sy'n datgan eu hunain wrth wneud cais fel rhywun sydd ag anabledd ac sy'n bodloni'r gofynion gofynnol ym manyleb person y swydd wag y maen nhw gwneud cais amdani.

- Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol ym mhob cam o'r broses recriwtio er mwyn galluogi ymgeiswyr llwyddiannus sy'n datgan anableddau i ddechrau gweithio neu wirfoddoli eu hamser gyda ni.

- Bydd unrhyw aelodau o staff neu wirfoddolwyr cyfredol sy'n dymuno gwneud cais am swyddi gwag ac sydd â chymwysterau addas yn cael eu hystyried a'u trin yn deg ac yn wrthrychol, yn seiliedig ar eu rhinweddau.

- Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddiogelu, byddwn yn sicrhau y bydd pob person o dan 18 oed sy'n ymuno â'r sefydliad yn cael asesiadau risg parhaus i sicrhau bod eu rôl a'u gweithgareddau'n ddiogel ac yn briodol.

- Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud ag ymgeiswyr yn cael eu trin yn gyfrinachol yn unol â deddfwriaeth GDPR.